Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif.2
Legislation Committee No.2

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

8 Rhagfyr 2009

Annwyl Syr / Madam

Ymgynghoriad ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol sy'n ymwneud â thai a llywodraeth leol

Fel rhan o'n gwaith craffu, mae Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth ar *Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010* mewn perthynas â thai cymdeithasol ac anghenion tai pobl sy'n agored i niwed.

Beth yw Gorchymyn Cymhwysedd Dedfwriaethol?

Mae Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ("Gorchymyn") yn ddarn o ddeddfwriaeth sy'n trosglwyddo pwerau penodol (neu 'gymhwysedd') o Senedd y DU i'r Cynulliad.

Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu y bydd pob Gorchymyn newydd yn ychwanegu 'Mater' (neu Faterion) i'r maes perthnasol yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan roi'r pwerau i'r Cynulliad wneud Mesurau (deddfau) o fewn y meysydd polisi a ddiffinnir gan y mater.

Yn y Cynulliad, mae dwy gam i'r broses o ystyried gorchymyn, sy'n cynnwys:

- y gwaith o graffu ac adrodd ar Orchymyn arfaethedig sy'n cael ei wneud gan bwyllgor deddfwriaeth;
- y broses o gymeradwyo gorchymyn drafft gan y Cynulliad

Beth y mae'r Gorchymyn arfaethedig hwn yn ceisio ei gyflawni?

Mae Gorchymyn *Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010* yn cynnig ehangu cymhwysedd deddfwriaethol presennol y Cynulliad drwy gynnwys 7 mater newydd ym Maes 11 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 – Materion 11.2 – 11.8; ac un mater newydd ym Maes 12 – Mater 12.18.

Ffon / Tel: 029 2089 8032
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn Arfaethedig yn nodi:

> "Prif bwrpas y GCD [arfaethedig] yw darparu cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â… tai cymdeithasol a diwallu anghenion pobl hyglwyf am dai. Meysydd polisi yw'r rhain sydd wedi eu datganoli ac y mae gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd swyddogaethau gweithredol eang ynddynt ond nad oes gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol cyfatebol ynddynt.
>
> Bydd y GCD yn cynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru i wireddu ei uchelgais… sef sicrhau bod yr angen am dai yn cael ei ddiwallu a bod gwell mynediad at dai."

Gellir cael mwy o fanylion am y Gorchymyn arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig ar wefan y Cynulliad yn:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-legislative-competence-orders/bus-legislation-lco-2009-hlg-2.htm

Beth yw rôl y Pwyllgor?

Ein rôl yw craffu ar y Gorchymyn arfaethedig ac adrodd arno – y rhan gyntaf o'r broses dau gam a amlinellwyd uchod.

Wrth wneud hyn, rydym wedi cytuno i weithio o fewn y fframwaith a ganlyn:

Byddwn yn ystyried —

(i) egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig ac a ddylid rhoi'r cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodir ym Materion 11.2 – 11.8, a mater 12.18, i'r Cynulliad;

(ii) a yw cylch gorchwyl y Gorchymyn arfaethedig wedi'i ddiffinio mewn ffordd sy'n rhy eang neu'n rhy gyfyng.

Wrth gynnal ein gwaith craffu, byddwn yn osgoi cynnal trafodaethau manwl ar y Mesurau posibl a allai ddod yn sgil y Gorchymyn arfaethedig hwn. Wrth roi tystiolaeth i ni, byddem yn gwerthfawrogi pe na baech yn cynnwys unrhyw wybodaeth fanwl a fyddai'n fwy perthnasol i unrhyw Fesur y gellid ei gyflwyno yn y dyfodol.

Sut y gallwch ein helpu – y cwestiynau ymgynghori

Hoffem eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo gwaith craffu'r Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig. Yn benodol, hoffem eich sylwadau ar y cwestiynau a restrir yn **Atodiad 1**.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi o'ch cyflwyniad at legislationoffice@wales.gsi.gov.uk a rhowch y teitl *Ymgynghoriad – y Gorchymyn Tai a*

Ffon / Tel: 029 2089 8032
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

Llywodraeth Leol Arfaethedig ar eich neges. Fel arall, gallwch ysgrifennu at: Sarah Sargent, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi adroddiad erbyn 29 Ionawr 2010 fan bellaf. Fel bod gennym ddigon o amser i ddadansoddi'r ymatebion ysgrifenedig ac i glywed tystiolaeth lafar ym mis Ionawr, bydd ein hymgynghoriad ar agor am 5 wythnos. **Dylai unrhyw gyflwyniadau gyrraedd erbyn dydd Gwener 8 Ionawr 2010. Mae'n bosibl na fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.**

Gellir cael gafael ar wybodaeth bellach am y **broses ddeddfwriaethol** yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-lco.htm

Wrth baratoi eich ymateb, cadwch y canlynol mewn cof:

- dylai eich tystiolaeth ymwneud â'r materion y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried. Rhowch y teitl a ddefnyddir uchod ar eich ymateb;
- Bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt ac efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad yn eu gweld a'u trafod yn ystod cyfarfodydd pwyllgor hefyd. **Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich ymateb neu'ch enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn glir wrth gyflwyno'ch tystiolaeth.** Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd y Pwyllgor yn rhoi'r un pwyslais arno pan fydd yn ystyried y dystiolaeth. Dylech hefyd fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl y bydd y wybodaeth a roddwyd gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth am gwmni, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Hefyd:

- nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad, neu fel unigolyn, a rhowch eglurhad byr o'ch maes arbenigedd;
- rhowch grynodeb o'r prif bwyntiau a wneir yn eich ymateb;
- nodwch a fyddech yn barod i roi tystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig ym mis Ionawr.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Sarah Beasley, Clerc y Pwyllgor, ar 029 2089 8032 neu Sarah Sargent, y Dirprwy Glerc ar 029 2089 8408.

Yr eiddoch yn gywir

Val Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Ffon / Tel: 029 2089 8032
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

Atodiad 1

Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010

Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. Beth yw eich barn ynglŷn â'r egwyddor gyffredinol y dylid rhoi'r cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodir ym Materion 11.2 – 11.8 a Mater 12.18 i'r Cynulliad?

2. Beth yw eich barn ynglŷn â chylch gorchwyl neu gwmpas y Gorchymyn arfaethedig? Er enghraifft, a yw wedi ei ddrafftio mewn ffordd sy'n rhy gyfyng neu'n rhy eang?

3. Beth yw eich barn ynglŷn â phob un o'r wyth mater a gynhwysir yn y Gorchymyn arfaethedig? *(Gellir cael gwybodaeth bellach am bob un o'r Materion ar dudalennau 11-13 o'r Memorandwm Esboniadol)*

4. Beth yw eich barn ynlglyn â'r paragraff 'Dehongli'r maes hwn'?

5. A oes gennych sylwadau pellach sy'n ymwneud â'r Gorchymyn arfaethedig?

(Gellir cael gwybodaeth bellach am gwmpas y Gorchymyn arfaethedig yn y Memorandwm Esboniadol)

Ffon / Tel: 029 2089 8032
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

Ffon / Tel: 029 2089 8032
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk